Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu)

Chwefror 2019

## Y cefndir

### Y Bil

#### Trosolwg

**1.** Cafodd y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu)[1] (y Bil) ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mehefin 2018, a Syr Oliver Heald QC AS a oedd yn gyfrifol amdano (h.y. mae'n Fil Aelod Preifat). Ystyriwyd y Bil mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Mercher 16 Ionawr a chafodd ei adrodd heb ei ddiwygio, cyn iddo symud ymlaen drwy'r Cyfnod Adrodd a'r trydydd darlleniad ar 8 Chwefror 2019. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Chwefror 2019. Mae'r ail ddarlleniad wedi'i drefnu ar gyfer 1 Mawrth 2019.

**2.** Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

> "The Bill provides for increased protection for service animals by amending section 4 of the Animal Welfare Act 2006 (the "2006 Act"). It addresses public concerns about the application of section 4(3)(c)(ii) of the 2006 Act to attacks on service animals, where a defendant accused of causing unnecessary suffering to an animal could claim they were protecting themselves and are justified in using physical force against a service animal, causing it, effectively, necessary suffering.

[1] Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu) 2017-10 HC 225

> This Bill amends section 4 of the 2006 Act to require a Court to disregard the consideration at section 4(3)(c)(ii) of the 2006 Act in certain circumstances when assessing whether suffering was unnecessary in the context of causing suffering to a service animal."[2]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**3.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n dod o fewn ei gymhwysedd.

**4.** Ar 17 Ionawr 2019, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.[3]

**5.** Ar 22 Ionawr 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig i'w ystyried. Pennodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad 1 Mawrth 2019 ar gyfer cyflwyno adroddiad.[4]

**6.** Mae paragraffau chwech i 10 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, sef cymal 1 a chymal 2.[5]

**7.** Mae paragraff 11 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam fod cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol:

> "Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn y Llywodraeth yw ei bod hi'n briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU am resymau amser ac ystyrlondeb. Mae darpariaethau'r Bil yn gyson ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid. Bydd mynd â'r Bil hwn yn ei flaen yn

---

[2] Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu): Nodiadau Esboniadol, Mehefin 2018

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu, Ionawr 2019

[4] Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu), Ionawr 2018

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu), Ionawr 2019

golygu y rhoddir yr un amddiffyniad i anifeiliaid gwasanaethu yng Nghymru yr un pryd â'r rheini yn Lloegr."[6]

# Ystyriaeth y Pwyllgor

**8.** Ystyriwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ein cyfarfod ar 4 Chwefror 2019.[7]

## Ein barn

**9.** Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru ynghylch pam, yn ei farn ef, bod gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol.

**10.** Rydym yn siomedig na welodd Llywodraeth Cymru achos dros gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun, na'r cyfle i wneud hynny, yn enwedig gan bod y Gweinidog wedi datgan bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

**11.** O ran y pwynt a godwyd gan y Gweinidog mai dim ond drwy gymryd darpariaethau yn y Bil y caiff anifeiliaid gwasanaethu yng Nghymru yr un lefel o amddiffyniad ar yr un pryd â'r rheini yn Lloegr, nid ydym yn credu bod hwn yn bryder digonol i warantu deddfu ar sail Cymru a Lloegr.

**12.** Yn ein barn ni, gallai'r prosesau deddfwriaethol o fewn y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU fod wedi hwyluso gwaith craffu ar Filiau priodol o fewn amserlenni tebyg. I'r gwrthwyneb, mae cenhedloedd yn y DU eisoes wedi deddfu ar wahanol gyflymder ar faterion eraill, gan gynnwys yr isafbris uned o alcohol a thaliadau am fagiau siopa untro.

**13.** Ymhellach, byddai deddfu ar sail Cymru'n unig hefyd wedi ychwanegu at nod Llywodraeth Cymru o ddatblygu corff dwyieithog o gyfraith Cymru, a'i gefnogi hefyd.

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaethu), Ionawr 2019

[7] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 4 Chwefror 2019,